Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)

# Grŵp Risg Trallwyso Gwaed

Cylch Gorchwyl

## 1. Diben

Un o nodau strategol Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru[1] yw rhoi diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal, lleihau amrywioldeb a chefnogi arloesedd a datblygiad. Mae lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r arfer o drallwyso gwaed yn allweddol i hyn er mwyn lleihau'r niwed yn sgil trallwysiadau. Sefydlwyd Gweithgor SHOT BHNOG i gefnogi gweithredu argymhellion SHOT (Peryglon Difrifol o ran Trallwyso), cynllun haemowyliadwriaeth yn y DU. Mae adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig (IBI) ac yn benodol argymhelliad 7e[2] yn pwysleisio pwysigrwydd adrodd am Beryglon Difrifol o ran Trallwyso a gweithredu ar yr argymhellion. O fis Gorffennaf 2025 ymlaen, cafodd argymhellion SHOT eu disodli gan Safonau Diogelwch Trallwyso SHOT[3] i fynd i'r afael â thueddiadau cylchol a sefydlu dull rhagweithiol i wella diogelwch.

Defnyddir y platfform ar-lein, SABRE (Adweithiau a Digwyddiadau Niweidiol Difrifol yn ymwneud â Gwaed) i adrodd am bob digwyddiad haemowyliadwriaeth i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a ystyrir yn ddigwyddiadau niweidiol difrifol (SAE), adweithiau niweidiol difrifol (SAR) a/neu Beryglon Difrifol o ran Trallwyso y dylid adrodd arnynt.

Mae BHNOG yn cydnabod mai dim ond cyfran o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thrallwyso gwaed y mae MHRA a SHOT yn eu cofnodi. Mae'n cydnabod hefyd bod angen goruchwyliaeth ehangach o'r risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau eraill sy'n peri risg uchel posibl neu dueddiadau yr adroddir arnynt yn lleol yn unig er mwyn deall yn iawn a mynd i'r afael â'r risg hon yng Nghymru.

O ganlyniad, mae gweithgor SHOT BHNOG a sefydlwyd wedi'i ailenwi'n Grŵp Risg Trallwyso Gwaed (TRG) BHNOG i fonitro risg trallwyso yng Nghymru a chefnogi unrhyw gamau gweithredu a gynhyrchir. Mae hefyd yn cefnogi gweithredu argymhellion a safonau mewn perthynas â diogelwch trallwyso yn cynnwys SHOT.

## 2. Nod

Nod y Grŵp Risg Trallwyso Gwaed yw goruchwylio risg trallwyso yng Nghymru, a rhoi'r cyfle i ddysgu ar y cyd a datblygu camau gweithredu ar gyfer lliniaru ac uwchgyfeirio lle bo angen. Bydd hyn yn cynnwys atgyfnerthu metrigau cydymffurfio sy'n ymwneud ag argymhellion a safonau o amrywiaeth o ffynonellau perthnasol, yn cynnwys Peryglon Difrifol o ran Trallwyso. Bydd y Grŵp Risg Trallwyso Gwaed yn cydweithio i benderfynu ar yr hyn sydd wrth wraidd digwyddiadau, yn nodi cyfleoedd meincnodi, yn datblygu offer ac adnoddau i'w defnyddio'n genedlaethol ac yn arwain cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrallwyso gwaed. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson ac yn atal dyblygu ymdrechion i wneud y gorau o'r gweithlu. Cyflawnir hyn drwy weithio mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allweddol ac arbenigwyr pwnc ym meysydd ymarfer trallwyso, haemowyliadwriaeth ac ansawdd a diogelwch cleifion.

## 3. Llywodraethu

Mae'r Grŵp Risg Trallwyso Gwaed yn atebol i BHNOG ac yn dilyn llwybrau llywodraethu cydnabyddedig a ddiffinnir yng nghylch gorchwyl BHNOG[4].

## 4. Cadeirydd

Bydd cynrychiolydd o'r grŵp aelodaeth graidd yn cadeirio'r Grŵp Risg Trallwyso Gwaed a bydd BHNOG yn ei gymeradwyo. Bydd dirprwy gadeirydd hefyd yn cael ei recriwtio pan fydd y grŵp wedi'i sefydlu'n llawn. Mae tymor yn y swydd yn y rôl hon yn isafswm o 2 flynedd. Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu bob 2 flynedd o leiaf.

## 5. Aelodaeth

Bydd yr aelodaeth yn cael ei chydlynu i sicrhau cynrychiolaeth deg o Fyrddau Iechyd GIG Cymru. Os na all aelod craidd fod yn bresennol, disgwylir i ddirprwy dynodedig ddod yn ei le, lle y bo modd. Disgwylir cworwm o 5/9 o gynrychiolwyr o'r aelodau i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau dilys a theg. Rhaid i hyn gynnwys cynrychiolaeth o 4/6 Bwrdd Iechyd o leiaf, a rhaid iddo gynnwys yr aelodau allweddol canlynol*.

Disgwylir i aelodau roi mecanwaith adborth i'r grwpiau y maent yn eu cynrychioli.

| *Aelodaeth Graidd* |
|---|
| Cynrychiolaeth o Labordy Gwasanaeth Gwaed Cymru |
| Cynrychiolaeth o Dîm Iechyd Gwaed Gwasanaeth Gwaed Cymru* |
| Cynrychiolaeth o SHOT - Peryglon Difrifol o ran Trallwyso* |
| Cynrychiolwyr o Grŵp Ymarferwyr Trallwyso Cymru Gyfan* |
| Cynrychiolwyr o Grŵp Rheolwyr Labordai Trallwyso* |
| Cynrychiolydd Arweinydd Ansawdd Patholeg* |
| Cynrychiolaeth o Ansawdd a Diogelwch Cleifion |
| Cynrychiolaeth o'r Gronfa Risg Genedlaethol |
| Cynrychiolydd Cymru ar Weithgor Cydweithredol SHOT UK i Adolygu a Diwygio Prosesau TG wrth Drallwyso (SCRIPT) |
| *Aelodau nad ydynt yn aelodau craidd* |
| Gwahoddir aelodau yn ôl y galw/fel y bo'n berthnasol |

## 6. Fformat Cyfarfodydd a’r Dogfennau Angenrheidiol

Bydd y Grŵp Risg Trallwyso Gwaed yn cyfarfod bob chwarter cyn cyfarfodydd BHNOG; cynhelir cyfarfodydd TRG yn rhithwir dros MS Teams.

Bydd y Tîm Iechyd Gwaed yn rhoi cymorth gweinyddol.

Bydd angen y dogfennau canlynol:

- Nodiadau'r cyfarfod blaenorol, cofnod o’r camau gweithredu a chofnod o’r penderfyniadau
- Dogfennau sy'n cefnogi eitemau ar yr agenda
- Adroddiadau chwarterol BHNOG ar y prif bwyntiau

## 7. Cylch gorchwyl

Cylch gorchwyl y Grŵp Risg Trallwyso Gwaed yw:

- Datblygu mecanwaith i oruchwylio risg a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thrallwyso gwaed – yn cynnwys digwyddiadau SHOT a MHRA y dylid adrodd arnynt, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt
    - Mae SHOT wedi nodi dros nifer o flynyddoedd bod oedi cyn trallwyso yn peri risg sylweddol, a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr oruchwyliaeth hon.
- Monitro tueddiadau a datblygu argymhellion neu gamau gweithredu i liniaru risgiau a nodwyd
- Uwchgyfeirio risgiau a chefnogaeth BHNOG lle bo angen
- Monitro a lle y bo modd, cefnogi gweithredu safonau diogelwch sy'n gysylltiedig â Pheryglon Difrifol o ran Trallwyso ac argymhellion eraill sy'n ymwneud â thrallwyso gwaed. Gall hyn gynnwys cydlynu offer dadansoddi bwlch a meincnodi.

## 8. Cyfeiriadau

[1] Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru 2024-2027
https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2024/04/BHP-2024_-en_gb-cy_gb-C-1.pdf

[2] Infected Blood Inquiry: The Report 2024
https://www.infectedbloodinquiry.org.uk/sites/default/files/Volume_1.pdf (Saesneg yn unig)

[3] Safonau Diogelwch Trallwyso SHOT

https://www.shotuk.org/transfusion-safety/transfusion-safety-standards/safety-standards/
(Saesneg yn unig)

[4] Cylch Gorchwyl BHNOG

https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2025/12/BHNOG-ToR-V3-2025-en-cy-C.pdf